

# Teithio llesol ac iach yw'r cam cywir i'n plant: Cynigion Sustrans Cymru ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru

**Mae Cymru ar flaen y gad gyda'i deddfwriaeth Teithio Llesol. Bydd canolbwyntio darpariaeth ar y daith ysgol yn y lle cyntaf yn fuddiol i iechyd plant ac i'r amgylchedd.**

**Rydym eisiau gweld taith ddiogelach, iachach i'r ysgol. Dewch inni wireddu hynny.**

Credwn fod gan bob plentyn yr hawl i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol yn ddiogel.

I wireddu hyn, dylai Llywodraeth nesaf Cymru:

- Ymroddi i wneud "pob plentyn yn feiciwr". Dylai beicio fod yn sgil graidd i blant yng Nghymru, a hynny wedi ei ddarparu drwy gyfrwng maes llythrennedd corfforol y cwricwlwm cenedlaethol a'r cwricwlwm newydd sy'n codi yn sgil Dyfodol Llwyddiannus Donaldson.
- Osod strategaeth fuddsoddi tymor hir i ddatblygu llwybrau cerdded a beicio diogel, yn enwedig i ac o amgylch ysgolion.
- Alluogi pob ysgol i ymgysylltu fel rhan o'r Ddeddf Teithio Llesol, gyda llwybrau wedi'u mapio i bob ysgol fel rhan o'r Mapiau Rhwydwaith Integredig.
- Gefnogi rhagor o barthau 20mya yn ein cymunedau – wedi eu creu gan gynghorau lleol yn y tymor byr.

## Crynodeb gweithredol

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol wedi rhoi'r cyfle i Gymru drawsnewid ei hun i fod yn wlad ble mai cerdded a beicio yw'r ffyrdd cyffredin o deithio o le i le ar deithiau byrrach. Mae gwireddu'r cyfle hwn yn ddibynnol ar fuddsoddiad a newid ymddygiad. Credwn ei bod yn synhwyrol i fynd ati i ddechrau newid gyda'n plant; i wneud ffyrdd iach o fyw yn rhan o'u bywydau am byth. Rydym eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru wneud ymroddiad clir i wireddu hyn.

Dylai pob plentyn gael yr hawl i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol yn ddiogel. Er bod y rhan fwyaf o blant Cymru'n byw o fewn pellter byr i'w hysgol leol, ychydig iawn sy'n beicio yno – dim ond 2% o deithiau sydd ar gefn beic – gyda mwy a mwy o blant yn cael eu gyrru i'r ysgol.



Cafodd 79 o blant eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd yn 2013



Mae diffyg gweithgaredd corfforol, rhyddid ac annibyniaeth o ddydd i ddydd yn cael effaith drawiadol ar iechyd a lles ein plant. **Dim ond 35% o blant Cymru sy'n cael yr awr o weithgaredd corfforol sydd ei angen arnynt bob dydd yn ôl argymhellion.** Mae cerdded neu feicio'r daith i'r ysgol

yn ffordd amlwg i blant gael rhagor o weithgaredd corfforol bob dydd, a gyda hynny daw ystod o fuddion i'n heconomi, ein cymunedau a'n hamgylchedd.

Perygl ffyrdd ac ofn traffig yw'r prif ffactorau sy'n atal rhieni rhag caniatáu i'w plant gerdded neu feicio i'r ysgol. **Yn 2013, lladdwyd neu anafwyd yn ddifrifol nifer sy'n cyfateb a bron i dri dosbarth ysgol gynradd o blant ar ffyrdd Cymru.** Pe bai cymaint â hyn o blant yn cael eu lladd neu eu hanafu mewn unrhyw ffordd arall, byddai gwrthgri cenedlaethol.

Yn 2013 pasiodd Cynulliad Cymru'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru), y ddeddfwriaeth gyntaf o'i bath yn y byd, sy'n gosod fframwaith clir i'r newidiadau sydd eu hangen i wneud beicio a cherdded yn gyffredin ar gyfer teithiau byr o ddydd i ddydd.

### **Nawr bod y fframwaith yn bodoli, rhaid sicrhau ein bod yn gweithredu arno.**

Mae pedwar rhan allweddol a fydd yn galluogi'r Ddeddf i lwyddo ac i roi i bob plentyn yr hawl i gael taith ddiogelach i'r ysgol.


- Strategaeth tymor hir gan y Llywodraeth ar gyfer datblygu llwybrau cerdded a beicio diogel i ac o amgylch ysgolion.
- pob ysgol i ymgysylltu fel rhan o'r Ddeddf Teithio Llesol, gyda llwybrau wedi'u mapio i bob ysgol fel rhan o'r Mapiau Rhwydwaith Integredig.
- Llywodraeth Cymru i gefnogi nifer uwch o barthau 20mya yn ein cymunedau – wedi eu creu gan gynghorau lleol yn y tymor byr.
- Sgiliau teithio llesol i gael eu mewnosod o fewn y cwricwlwm a hyfforddiant beicio i fod yn rhan o brofiad ysgol bob plentyn, fel rhan allweddol o wneud bob plentyn yn feiciwr.

Dymuna rhieni a phlant gael llwybrau diogel ar gyfer cerdded a beicio yn eu cymunedau; maent eisiau cael ymgysylltu o ddifrif gyda'r cynlluniau; ac maent eisiau gostyngiad mewn cyflymdra ar ffyrdd ein cymunedau lleol.<sup>1</sup>

Gellid sicrhau taith ddiogel i'r ysgol ar gyfer pob plentyn o fewn yr ymrwymadau gwariant presennol ar gyfer trafndiaeth, diogelwch ffyrdd a theithio ysgol; byddai'n cynnig gwerth gwych am arian; a byddai'n llesol i'n plant, ein hiechyd a'n heconomi.


### **Rydym eisiau gweld taith ddiogelach i'r ysgol. Dewch inni wireddu hynny.**

## Beth yw'r broblem?



### Mae llai o blant nag erioed yn cerdded a beicio i'r ysgol

Mae'r rhan fwyaf o blant eisiau cerdded neu feicio i'r ysgol, ac yn byw ddigon agos i wneud hynny pe bai'r strydoedd ddigon diogel. Cyfartaledd pellter y daith i'r ysgol yw 1.4 milltir (30 munud o gerdded, neu 15 ar gefn beic) ar gyfer ysgolion cynradd a 4.9 milltir ar gyfer ysgolion uwchradd.<sup>2</sup> Ond dim ond ar gyfer y teithiau byrraf y mae'r niferoedd sy'n cerdded a beicio yn uwch na'r niferoedd sy'n cael eu gyrru gan rieni. Teithiau mewn car yw 69% o'r teithiau rhwng un a dwy filltir i'r ysgol gynradd, a dros draean o'r teithiau rhwng un a thair milltir i'r ysgol uwchradd.<sup>3</sup>



Mae'r graff uchod yn dangos y % o ddisgyblion sy'n defnyddio ffurf o drafnidiaeth fel eu modd arferol o deithio i'r ysgol.

## **Mae plant a'u rhieni yn teimlo'n annioel**

Mae perygl ffyrdd wedi tynnu plant oddi ar ein strydoedd: nid yw hanner plant 7-10 oed yn cael croesi'r ffyrdd ar eu pen eu hunain o gwbl. Perygl ffyrdd yw'r dylanwad mwyaf ar sut mae plant yn teithio i'r ysgol, gyda bron i hanner (44%) rhieni yn datgan pryder am hyn, nifer uwch na phellter a hwylustod (29%) a bron ddwywaith gymaint â pherygl dieithriaid (24%). Ymysg y rhai sy'n cerdded i'r ysgol y mae'r pryder mwyaf (60%).<sup>4</sup> Mae tystiolaeth yn dangos fod cyflymdra traffig, niferoedd cerbydau ac ymddygiad gyrwyr yn broblemau parhaus yn ein cymunedau, tra bod parcio ar y palmant, gyrwyr yn defnyddio ffonau symudol, a pharcio anystyriol o amgylch ysgolion yn bryderon sy'n cynyddu.<sup>5</sup>

## **Mae gormod o blant yn cael eu lladd neu'u hanafu ar ein ffyrdd**

Mae sail dda i'r pryderon am berygl ffyrdd. Yng Nghymru yn 2013, cafodd 79 o blant o dan 15 oed eu lladd neu'u hanafu'n ddifrifol wrth gerdded neu feicio ar ein ffyrdd. Mae hyn yn gyfystyr a 3 dosbarth o blant mewn ysgol gynradd maint cyffredin.

Caiff pobl ifanc eu gorgynrychioli mewn ystadegau anafiadau – er gwaethaf lefelau cymharol isel o deithio llesol, roedd 28% o'r cerddwyr a 21% o'r beicwyr a laddwyd neu anafwyd yn 2011-13 yn iau nag 19.<sup>6</sup> Mae niferoedd plant sy'n dioddef anafiadau ar y ffordd yng Nghymru wedi disgyn yn y degawdau diwethaf. Tra mae hyn i'w groesawu, gellir ei briodoli'n rhannol i'r lleihad yn y niferoedd o blant sy'n cerdded, beicio neu chwarae yn y stryd.

## **Mae'r daith i'r ysgol yn ddrwg i'n plant ...ac i Gymru**

Mae methu cerdded neu feicio i'r ysgol yn cael effaith drawiadol ar iechyd a lles ein plant, yn ystod eu plentyndod ac ar hyd eu bywydau. Dim ond 35% o blant Cymru sy'n cael yr awr o weithgaredd corfforol sydd ei angen arnynt bob dydd, yn ôl argymhellion, o gymharu â 42% yn Lloegr. Mae'n hysbys mai'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael a hyn yw ymgorffori gweithgaredd corfforol i mewn i fywyd dydd i ddydd, ac i'r nifer fwyaf gellid cyrraedd y targed hwn drwy gerdded neu feicio i'r ysgol.<sup>7</sup> Mae plant Cymru hefyd yn bell ar ôl eu cyfoedion mewn gwledydd eraill o ran y rhyddid, hyder ac annibyniaeth i symud o gwmpas ar eu liwt eu hunain.

Mae'r canlyniadau'n ymestyn llawer pellach nag effeithiau uniongyrchol segurdod corfforol, llygredd aer, a marwolaeth ac anafiadau ar y ffordd ar iechyd, lles ac addysg plant. Mae'n bosib mai dyma'r genhedlaeth gyntaf o blant i gael disgwyliad einioes is na'u rhieni. Mae afiechydon sy'n gysylltiedig â gordewdra a segurdod corfforol yn costio cannoedd o filoedd i GIG Cymru bob blwyddyn. Er enghraifft, gallai diabetes Math 2 – afiechyd y gellir ei atal, sydd gyda chysylltiad agos â segurdod corfforol a ffordd o fyw eisteddog – gostio £1biliwn y flwyddyn erbyn 2025.<sup>8</sup>

## **Rhoi sgiliau ar gyfer byw'n iach i'n plant**

Er mwyn manteisio ar gyfleusterau gwell, diogelach i feicio i'r ysgol mae angen rhoi'r sgiliau i'n plant fedru beicio'n gymwys ac yn ddiogel. Mae gormod o blant yng Nghymru yn colli cyfleoedd i gael hyfforddiant beicio iawn. Mae hefyd angen i ysgolion fedru darparu storffeydd diogel ar gyfer beiciau a sgwteri.

# Beth sydd angen newid?

## Gwneud teithio iach i'r ysgol yn flaenoriaeth

Mae'r dirywiad mewn cerdded a beicio i'r ysgol yn ganlyniad degawdau o bolisi a buddsoddi mewn trafndiaeth sydd wedi blaenoriaethu pobl sy'n gyrru dros bobl sy'n cerdded a beicio, hyd yn oed dros deithiau byr iawn.

Mae mentrau lleihau perygl wedi canolbwyntio gormod ar roi cyfrifoldeb unigol ar blant, rhieni a gyrrwyr, yn hytrach na thaclo achosion systemig perygl ffyrdd megis cyflymdra traffig.

Hefyd, nid yw polisiâu teithio ysgol wedi annog cerdded a beicio, gyda nifer o gynghorau yng Nghymru yn darparu bysiau am ddim ar gyfer teithiau i'r ysgol o dan 2 filltir, a ellid eu cerdded neu'u beicio'n hawdd.

Mae'r angen am ymagwedd mwy cydgyssylltiedig a thraws-lywodraethol i'r daith ysgol yn glir. Yng Nghymru, parha teithio llesol i ddisgyn bron i gyd o fewn cylch gwaith yr adran drafndiaeth, er gwaetha'r buddion clir i addysg ac – yn neilltuol – i iechyd. Mae prosiectau newid ymddygiad gan yr Adran Iechyd o fewn Llywodraeth Cymru, megis Newid am Oes, wedi digwydd, ond ar raddfa gyfyngedig.

Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi pwysleisio'r angen i ragor ohonom deithio'n llesol.<sup>9</sup> Mae angen gwell cydlyniant ar wariant a buddsoddiad ar draws llywodraeth er mwyn gwneud i hyn ddigwydd.

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn rhoi fframwaith clir ar gyfer cynyddu'r nifer o bobl sy'n cerdded a beicio yng Nghymru, yn cynnwys y daith i'r ysgol. Mae nawr angen gweithredu'n effeithiol arni.

## Buddsoddi ar gyfer y tymor hir

Mae buddsoddiad awdurdodau lleol mewn cerdded a beicio – yn cynnwys gweithrediad y Ddeddf Teithio Llesol – yn ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r darlun cyllido yn heriol o hyd. Mae gwledydd megis yr Iseldiroedd wedi sicrhau newid moddol sylweddol drwy wario hyd at £19 fesul pen o'r boblogaeth ar feicio dros genhedlaeth. Mae'r Alban bellach yn gwario £10 fesul pen o'r boblogaeth o gronfeydd canolog y Llywodraeth.

Yng Nghymru, mae'r ffigwr yn sylweddol is.

2010/11 - £14.042 miliwn (£4.68 y pen)

2011/12 - £9.99 miliwn (£3.33 y pen)

2012/13 - £13.51 miliwn (£3.50 y pen)

2013/14 - £13.13 miliwn (£4.38 y pen)

2014/15 - £11.79 miliwn (£3.93 y pen).<sup>10</sup>

Mae'r ffigwr ar gyfer 2014/15 yn llai na 2% o'r gyllideb drafndiaeth gyflawn gydag ychydig yn llai na £12miliwn ar gyfer cynlluniau cerdded a beicio, sy'n gweithio allan fel llai na £4 fesul pen o'r boblogaeth bob blwyddyn. Galwodd adroddiad diweddar yr Athro Stuart Cole a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad rhwng £10 a £20 y pen. Mae angen i fuddsoddi mewn cerdded a beicio fod yn flaenoriaeth cyllideb os oes unrhyw siawns i Gymru wireddu'r buddion o fod yn genedl sydd yn dewis cerdded a beicio fel dulliau teithio ar gyfer teithiau byrion.

Tra mae cyllido llwybrau newydd yn allweddol, gellir cyflawni mwy fyth trwy gyfuno buddsoddiad cyfalaf mewn gwell llwybrau gyda rhaglenni refeniw i fagu sgiliau, gwybodaeth a hyder plant.<sup>11</sup> Yng Nghymru, mae rhai cynghorau eisoes yn cyllido hyfforddiant beicio Safonau Cenedlaethol.

Nid yw'r model cyllido presennol o fuddsoddiad tymor byr, wedi'i selio ar grantiau, yn ysgogi awdurdodau lleol i ddatblygu na gweithredu ar gynlluniau uchelgeisiol o dan y Ddeddf Teithio Llesol.

### **Darparu llwybrau diogel i bawb**

Mae tystiolaeth yn dangos fod creu llwybrau cerdded a beicio diogel yn fodd effeithiol o gynyddu cerdded a beicio i'r ysgol (ac ar deithiau lleol eraill). Yn Lloegr mae creu llwybrau newydd i ac o amgylch ysgolion wedi sicrhau cynnydd cyfartalog o 151% yn y nifer o blant sy'n eu defnyddio i gerdded a beicio, ac wedi rhoi o leiaf £10 o fudd economaidd drwy leihau tagfeydd, cynyddu gweithgaredd corfforol, a buddion diogelwch am bob £1 a fuddsoddwyd.

Mae gan Lywodraeth Cymru gronfa "Llwybrau Diogel mewn Cymunedau" a gafodd ei glustnodi'n benodol ar gyfer ysgolion yn 2014/15. Bydd y cyllid hwn o £4.99 miliwn yn darparu 30 cynllun ledled Cymru. Tra mae hyn i'w groesawu, mae dros 1600 o ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Rhaid i ni brysuro'n camau i roi'r hawl i bob plentyn gael siwrne ddiogel ac iach i'r ysgol.

### **Mae cyflymdra is yn golygu strydoedd diogelach**

Mae cyflymdra traffig is yn rhan allweddol o strydoedd diogelach. Mae tystiolaeth gadarn fod terfyn cyflymdra yn effeithiol wrth wneud ffyrdd yn ddiogelach i blant a phobl ifanc, a chynyddu cerdded a beicio.

Ym Mryste, gwelwyd cynnydd o 12% mewn cerdded a beicio a theimla 35% o bobl yn ddiogelach yn sgil cynlluniau peilot parthau 20mya ar draws ardal gyfan. Mae 40% yn llai o anafiadau ar y ffordd mewn strydoedd 20mya gyda'r gostyngiad mwyaf yn y niferoedd o blant ifanc a laddir neu anafir. Mae terfynau 20mya rhagosodedig yn rhatach i'w gweithredu arnynt ac yn gallu lleihau'r angen i wario ar isadeiledd sylweddol newydd.<sup>12</sup>

# Beth yw'r ateb?

## **Symud y Ddeddf Teithio Llesol o'r map i lawr gwlad**

Mae Sustrans Cymru yn galw am ymrwymiad gwleidyddol i'r hawl i bob plentyn gael cerdded, beicio a sgwtera'n ddiogel i'r ysgol, wedi ei gefnogi gan dri pholisi penodol. Amlinellir y polisiau hyn yn fwy manwl isod.

## **Buddsoddiad tymor hir, sefydlog yw'r unig ffordd o gynyddu lefelau cerdded a beicio a thrawsnewid teithio lleol**

Mae angen arweinyddiaeth barhaus wedi'i uno â buddsoddiad gan lywodraeth genedlaethol i ddarparu'r adnoddau a chymhelliannau i wella pethau ar lawr gwlad. Yn San Steffan, mae Llywodraeth y DU bellach wedi derbyn fod angen darparu Strategaeth Fuddsoddi Cerdded a Beicio ar gyfer Lloegr. Dylai Cymru wneud yn yr un modd.

Mae'r Ddeddf Teithio Llesol 2013 (Cymru) arloesol yn gosod fframwaith clir i alluogi pobl o bob oedran a gallu i gerdded a beicio llawer mwy, yn enwedig ar deithiau byrrach.

Mae gwir berygl y bydd y Ddeddf yn methu â chyrraedd ei photensial oni chaiff ei gweithredu'n iawn.

Dylai Cymru wario isafswm o £10 fesul pen o'r boblogaeth (£30miliwn) bob blwyddyn ar deithio llesol os yw am ddechrau dod yn genedl sy'n beicio. Dim ond ychydig yn fwy na 4% o'r gyllideb trafndiaeth yw hyn (yn 2014/15). Mae gan Gymru dros 1600 o ysgolion - er mwyn i ddisgyblion ledled Cymru elwa o daith ddiogel i'r ysgol rydym angen gwneud cynnydd dramatig yn y nifer o lwybrau y gallem ei adeiladu bob blwyddyn.

Mae Cymru ar hyn o bryd yn dioddef oherwydd mai ffrydiau cyllid blynyddol yn unig a gynigir ar gyfer mentrau cerdded a beicio (drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn ddiweddaraf). Gall hyn ei gwneud bron yn amhosib gweithredu rhai cynlluniau mwy cymhleth, gan eu bod yn cymryd dros flwyddyn i'w cwblhau. Nid yw cyllid yn talu am waith paratoi ychwaith, felly rhaid i'r broses honno hefyd gael ei chynnwys o fewn y flwyddyn ariannol.

## **Rhoi llais i ddisgyblion, staff a rhieni ym mhob ysgol yng Nghymru**

Mae canllaw gweithredu'r Ddeddf Teithio Llesol yn gosod nod polisi clir i ymgysylltu gyda phobl ifanc ledled Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnig cyfle unigryw i ymgysylltu ag ysgolion a sicrhau fod pob plentyn ysgol yn cael llwybr diogel a fydd yn caniatáu iddynt gerdded neu reidio beic i'r ysgol.

Dyma gyfle i Awdurdodau Lleol ymgysylltu gyda chymunedau i ymgymryd â'u dyfodol, gyda thrafodaeth ystyrlon am y teithiau sy'n cael eu gwneud a'r llwybrau a fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau o ddydd i ddydd.

Byd Llywodraeth Cymru yn craffu ar y Mapiau Rhwydwaith Integredig a gyflwynir iddynt gan awdurdodau lleol yn 2017 (a phob tair blynedd ar ôl hynny). Dylai Llywodraeth Cymru wneud yn glir ei fod yn disgwyl gweld cynlluniau ar gyfer llwybrau cerdded a beicio i ysgolion.

## **Rhagor o barthau 20mya**

Parha terfynau cyflymdra rhagosodedig yn gyfrifoldeb i San Steffan,<sup>13</sup> ond gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i hybu a galluogi eu cyflwyno.

Mae nifer o drefi a dinasoedd yn Lloegr a'r Alban wedi gosod terfyn cyflymder 20mya ond nid oes gan un dref yng Nghymru derfyn o 20mya ar y rhan helaeth o'i strydoedd. Mae hyn er gwaethaf i chwe pherson o bob deg yng Nghymru gefnogi 20mya.<sup>14</sup>

Mae gostwng cyflymdra yn gwneud ein cymunedau'n ddiogelach i drigolion ac yn annog rhagor o bobl i gerdded neu feicio. Mae gan awdurdodau lleol y pwerau i gyflwyno terfynau 20mya a dylid blaenoriaethu hyn o amgylch ysgolion. Pan fydd y pwerau hyn yn cael eu datganoli dylai Aelodau Cynulliad ostwng y terfyn cyflymder rhagosodedig i 20mya gyda ffyrdd lleol i aros yn 30mya fel eithriad.

## **Pob plentyn yn feiciwr**

Mewn gwlad ble mae gennym ddeddfwriaeth yn gosod yr uchelgais i deithio llesol fod yn beth arferol ar gyfer teithiau byrion, dylid adnabod beicio fel sgil ar gyfer bywyd i'n pobl ifanc, sy'n rhoi'r sylfaen iddyn nhw wneud dewisiadau yn y dyfodol. Bydd adnoddau digonol sy'n rhan annatod o'r canllawiau ar Lythrennedd Corfforol yn y cwricwlwm craidd, ynghyd â sgiliau ymarferol a enillir drwy gyfrwng darpariaeth hyfforddiant beicio yn galluogi bob plentyn i gael yr hyder a'r wybodaeth i ddewis beicio fel dull teithio llesol mewn sefyllfaedd priodol.

Mae deilliannau dysgu Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol Lefel 2 yn feincnod priodol i'r sgiliau sydd eu hangen ar ddisgyblion sy'n gadael addysg gynradd. Dylai bob plentyn yng Nghymru gael y cyfle i dderbyn yr hyfforddiant hwn.

Rydym yn gwybod pa mor effeithiol y gall hyn fod. Mae gwaith Sustrans ei hun yn ysgolion saith o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi treblu beicio rheolaidd i'r ysgol, gyda chynnydd o 22% mewn cerdded a sgwera a lleihad parhaus yn y niferoedd o bobl yn gyrru plant i'r ysgol.<sup>15</sup>

Rhaid sicrhau fod ysgolion yn darparu ar gyfer teithio llesol, blaenoriaethu mynediadau sy'n ddiogel i gerddwyr a beicwyr a storfeydd beic fod yn ystyriaeth wrth adeiladu ysgolion newydd ac wrth adnewyddu.

Mae hefyd tystiolaeth gryf sy'n cysylltu gweithgaredd corfforol gyda gwell cyrhaeddiad academaidd<sup>16</sup> ac mae galluogi'r gweithgaredd hwnnw i ddigwydd ar y ffordd i ac o'r ysgol yn golygu nad ydyw'n cymryd amser oddi wrth y cwricwlwm.

Golyga hyn oll nad mater trafndiaeth yn unig yw sut mae plant yn cyrraedd yr ysgol, mae'n fater addysgiadol a mater iechyd.

## **O ble fyddai'r arian yn dod?**

Byddai ailddyrianiad bychan iawn o'r gyllideb ffyrdd yn trawsnewid gallu plant i gael taith ddiogel, iach i'r ysgol, a byddai'n talu amdano'i hun yn fuan iawn, yn enwedig wrth leihau tagfeydd a gwella iechyd.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffrwd cyllideb 'Teithio Llesol' fel rhan o Brif Grŵp Gwariant Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth – i ddangos sut mae'n cefnogi gweithrediad y Ddeddf Teithio Llesol. Byddai hyn yn cynnig eglurder pellach i gyllid sy'n cael ei ddarparu drwy strategaeth fuddsoddi tymor canolig.



# Ynglŷn â Sustrans

Mae Sustrans yn elusen flaenllaw yn y DU sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, beic neu drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer rhagor o'r siwrneiau a wnawn bob dydd. Rydym yn gweithio gyda theuluoedd, cymunedau, llunwyr polisi a mudiadau partner fel y gall pobl ddewis siwrneiau iachach, glanach a rhatach gyda gwell lleoedd a gofodau i symud drwyddynt a byw ynddynt.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Jane Lorimer, Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Sustrans Cymru, 123 Stryd Bute, Caerdydd, CF10 5AE / [jane.lorimer@sustrans.org.uk](mailto:jane.lorimer@sustrans.org.uk) / 029 2065 0602

<sup>1</sup> YouGov i Sustrans Cymru, 2013

[http://www.sustrans.org.uk/sites/default/files/file\\_content\\_type/yougov - sustrans results - cycling - 130318.xlsx](http://www.sustrans.org.uk/sites/default/files/file_content_type/yougov_-_sustrans_results_-_cycling_-_130318.xlsx)

<sup>2</sup> Ystadegau Cymru 2010 Teithio gan Ddysgwyr yng Nghymru /Learner Travel in Wales 2010 <http://wales.gov.uk/docs/statistics/2010/101012sb852010en.pdf>

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru 2014 Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14 – Teithio Llesol <https://statswales.wales.gov.uk/Download/File?fileId=406>

<sup>4</sup> DfT 2014 National Travel Survey 2013 Table NTS0616 Whether children (aged 7-13) are accompanied to school by an adult and the reasons: Great Britain, 2003 to 2012

<sup>5</sup> ONS 2012 Crime in England and Wales; DfT 2012 British Social Attitudes Survey 2011

<sup>6</sup> Ystadegau Cymru 2014 Diogelwch Ffyrdd 2013 SB 68/2014 <http://gov.wales/statistics-and-research/road-safety/?lang=en>

<sup>7</sup> DH 2011 Start Active, Stay Active; HSCIC 2013 Health Survey for England 2012; APCPA 2014 Tackling Physical Inactivity; NHS 2008 Healthy Weight Healthy Lives

<sup>8</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

<http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s18648/Ymchwiliad%20i%20weithredur%20Fframwaith%20Gwasanaeth%20Cenedlaethol%20ar%20gyfer%20diabetes%20yng%20Nghymru%20ai%20gyfeir.pdf>

<sup>9</sup> Adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru 2013/14

<http://gov.wales/docs/dhss/report/140929cmoreporten.pdf>

<sup>10</sup> Seiliwyd yr asesiad “fesul person” ar boblogaeth o 3 miliwn

<sup>11</sup> Sustainable Travel Projects: revenue and capital investment, Department for Transport, March 2015 <https://www.gov.uk/government/publications/sustainable-travel-projects-revenue-and-capital-investment>

<sup>12</sup> Bristol City Council 2012 Cabinet report and research findings; Haringey Council 2011 Scrutiny review: 20mph speed limit; London Assembly Transport Committee 2009 Braking Point: 20mph speed limits in London; LGiU 2013 Area-wide 20mph neighbourhoods

<sup>13</sup> Powers for a Purpose, Wales Office, February 2015

<https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales>

<sup>14</sup> Gweler nodyn 1

<sup>15</sup> Cerdded a Beicio: rhoi pobl ifanc ar y map, Sustrans Cymru 2014

[http://www.sustrans.org.uk/sites/default/files/file\\_content\\_type/rhoi\\_plant\\_ar\\_y\\_map\\_putting\\_children\\_on\\_the\\_map.pdf](http://www.sustrans.org.uk/sites/default/files/file_content_type/rhoi_plant_ar_y_map_putting_children_on_the_map.pdf)

<sup>16</sup> Centers for Disease Control and Prevention. The association between school based physical activity, including physical education, and academic performance. Atlanta, GA: U.S. Department of Health and Human Services; 2010.